General Optical Council

## Rôl a Dyletswyddau'r Cynghorydd Clinigol

### Penodi Cynghorwyr Clinigol

Mae adran 23E Deddf Optegwyr 1989 yn darparu'r pwerau i benodi cynghorwyr clinigol a'r pwerau i wneud rheolau atodol ynghylch eu swyddogaethau.

Rhaid i Gynghorwyr Clinigol fod ag arbenigedd mewn maes neu feysydd penodol ac ni ddylent fod yn aelodau o'r Cyngor.  Cânt eu penodi er mwyn rhoi cyngor i'r Pwyllgorau Apeliadau Addasrwydd i Ymarfer a Chofrestru ar faterion sy'n ymwneud ag iechyd sy'n cael eu hystyried gan y Pwyllgor.

### Rôl a Dyletswyddau

Mae'r rhain yn deillio o'r canlynol:

- Y cynllun statudol (a23D o'r Ddeddf a Rheolau FTP 2005)
- Cyfraith achosion rheoleiddwyr gofal iechyd a rheoleiddwyr eraill

### Rheolau Addasrwydd i Ymarfer 2005

Mae'r Rheolau'n gwneud darpariaethau penodol mewn perthynas â'r Cynghorydd Clinigol sy'n cynnwys:

- Rheol 42 (rôl a swyddogaeth gyffredinol)
- Rheol 48 (pŵer i holi tystion)

### Rôl Oddefol

Dan Reol 42 rhaid i'r Cynghorydd Clinigol:

- Fod yn bresennol ym mhob gwrandawiad lle mae anghenion iechyd corfforol a/neu feddyliol y cofrestrai i'w hystyried gan y Pwyllgor
- Cynghori'r Pwyllgor ar arwyddocâd unrhyw dystiolaeth sydd ger ei fron sy'n ymwneud ag iechyd corfforol a/neu feddyliol y cofrestrai
- Sicrhau bod unrhyw gyngor a roddir i'r Pwyllgor yn cael ei roi yng ngŵydd y partïon sy'n bresennol yn y gwrandawiad neu os cynigir cyngor i'r Pwyllgor yn y dirgel, rhaid cyfleu'r cyngor hwnnw i'r partïon yn ystod sesiwn agored nesaf y gwrandawiad.

### Rôl Weithredol

O dan Reol 48, gall y Cynghorydd Clinigol ofyn cwestiynau i unrhyw dyst, gyda chaniatâd Cadeirydd y Pwyllgor, ar faterion sy'n ymwneud ag iechyd corfforol a/neu feddyliol y cofrestrai.

Nid yw'r Cynghorydd Clinigol yn bresennol gyda'r Pwyllgor fel mater o drefn yn ystod ei sesiynau yn y dirgel, ond gellir ei wahodd i roi cyngor os bydd angen cyngor o'r fath ar y Pwyllgor.

Nid yw'r Cynghorydd Clinigol yn chwarae rhan weithredol mewn perthynas â phroses gwneud penderfyniadau'r Pwyllgor ar unrhyw adeg yn ystod gwrandawiad.

**Ffioedd a Threuliau**

Bydd y GOC yn talu ffi presenoldeb dyddiol, llety, gwesty a threuliau rhesymol i Gynghorydd Clinigol fel sy'n daladwy i aelodau'r Panel Addasrwydd i Ymarfer. Bydd y Cyngor yn trefnu teithio a llety.